

## Yr Eglwys

### Darlleniad: Rhufeiniaid 12

---

---

Deuwn ger dy fron, Arglwydd, i'th addoli am dy fod yn ymwneud â dyn o gwbl, ac ystyried ei wrthryfel yn dy erbyn mewn pechod. Addolwn di am dy fod wedi mynd gymaint pellach na hynny, ac wedi penderfynu ers tragwyddoldeb i gael teulu o bobl a fyddai'n bobl i Ti, ac a fyddai'n perthyn i'th deyrnas.

Diolch am dy ras tuag at Noa a'i deulu, at Abraham, Isaac a Jacob a'u had yn Israel. Diolch am dy gyfamod ag Abraham, am i ti fodloni ymrwymo dy hun wrth dy bobl, sef teulu'r ffydd. Diolch am dy amynedd parhaus tuag at dy bobl yn eu gwrthryfel yn dy erbyn di a'th orchymynion, a'th weision y proffwydi. Diolch i ti ymwneud â nhw mewn cariad ar hyd cyfnod yr Hen Destament. Diolch am roi y Ddeddf mewn cariad. Diolch am system yr aberthau yn arwyddo dyfodiad y Meseia, mewn cariad. Diolch am dy rybuddion a'th ddisgyblaeth gariadus. Diolch am roi iddynt wlad yr addewid, ac am eu dychwelyd yno ar ôl y gaethglud i Fabilon. Diolch am dy amddiffyn drostynt yn erbyn eu gelynion, ac am dy eiddgedd fel gŵr priod ac fel dyweddi ac fel Tad.

Diolch yn fawr am ymestyn ffiniau dy deulu yn y Testament Newydd i bob llwyth, gwlad ac iaith. Diolch am yr holl ddarluniau cyfoethog i ddisgrifio pobl dy deyrnas. Diolch am ddarlun y praidd a'r bugail da. Diolch am fugail sydd wedi rhoi ei einioes dros y defaid, ac sydd yn eu hamddiffyn trwy fod yn ddrws i'r gorlan. Diolch am ddarlun y maes lle mae'r gwenith yn cyd-dyfu â'r efrau tan Ddydd y Farn. Diolch am ddarlun y wir winwydden a'r canghennau, ac am berthynas fywiol Cristnogion â Christ yn ogystal â chyda'i gilydd. Sylweddolwn dy fod yn disgwyl inni ddwyn ffrwyth yr Ysbryd Glân er gogoniant i'th enw.

Diolch am y darlun o'r Eglwys fel corff Crist. Diolch ein bod yn aelodau i Grist trwy ffydd fyw yn y Pen. Diolch bod i bob aelod ei

le a'i waith, pa mor ddi-nod bynnag y bo. Sylweddolwn fod disgwyl i'th gorff i barhau gweinidogaeth Crist yn y byd heddiw.

Diolch am y darlun o deulu Duw. Teulu o Iddewon a chenedl-ddynion, caeth a rhydd, gwryw a benyw, du a gwyn. Diolch am gael ein mabwysiadu i'th deulu trwy ymddiried yn bersonol yn Iesu Grist fel ein Harglwydd a'n Gwaredwr. Diolch felly fod Cyd-Gristnogion yn frodyr yn chwiorydd a bod Crist ei hun yn frawd i ni. Diolch am y darlun o'r eglwys fel teml Dduw. Rhyfeddwn at y syniad o gynulliad dy bobl fel preswylfod sanctaidd i Dduw. Diolch eto bod lle i bob carreg ym muriau'r Deml, cerrig nadd, cerrig wyneb neu gerrig llanw, ond iddynt fod mewn cysylltiad byw â'r Pen-conglaen a wrthodwyd gan yr adeiladwyr, sef Iesu.

Yna, diolchwn am ddarlun o'r eglwys fel priodferch Crist. Diolch ei bod wedi ei galw i fod yn wraig y brenin yn y palas nefol. Sylweddolwn fod rhaid inni ymdrwsio gyda help yr Ysbryd Glân ar gyfer dydd y briodas, sef ail-ddyfodiad Iesu Grist. Diolch y caiff dy eglwys fod fel priodferch brydferth berffaith yn nydd Iesu Grist, 'a gogoniant Duw ganddi... ei llewyrch fel llewyrch gem dra gwerthfawr, fel maen iasbis, fel grisial.' Diolch i ti, Arglwydd, am y fraint gyfoethog o berthyn i eglwys Iesu Grist. Helpa ni i werthfawrogi'n braint, ac i werthfawrogi'n heglwys leol, y gymuned fyd-eang o Gristnogion, yn ogystal â'r cwmwl o dystion sydd wedi mynd o'n blaen ni.

Helpa ni i gofio mai eiddo Crist yw'r Eglwys, ac mai ei ewyllys ef yw ei busnes pennaf hi. Helpa ni i ufuddhau i'r comisiwn mawr o fynd i'r holl fyd gyda'r nerth o'r uchelder, ac i barhau gweinidogaeth Iesu yn ein dyddiau ni. Arglwydd, derbyn ein mawl a'n gweddïau, trwy Iesu Grist. Amen.

*John Treharne*